Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-Môr
**Heol St Alban**
**Brynmill**
**Abertawe**
**SA2 0BP**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/05/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-Môr wedi'i lleoli yng ngorllewin dinas Abertawe. Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys yr ardal o'i chwmpas ynghyd ag ardaloedd eang o'r ddinas, o Cila yn y gorllewin i Glan Dŵr yn y dwyrain.

Mae 304 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 49 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Mae ganddi 9 dosbarth.

Mae tua 11% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 11% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Ychydig o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith gartref, ac mae tua 5% o ddisgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ebrill 2009. Penodwyd y pennaeth yn Ionawr 2013.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bryn-Y-Mor yn 2015-2016 yw £2,821. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Abertawe yw £5,006 a'r lleiafswm yw £2,556. Mae ysgol Bryn-y-Mor yn y 75ain safle o'r 79 ysgol gynradd yn Abertawe o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- medrau llythrennedd a rhifedd llawer o'r disgyblion yn dda
- bron pob un o'r disgyblion yn dangos balchder at y Gymraeg ac yn siarad yr iaith wrth gymdeithasu amser chwarae ac yn eu gwersi
- ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda iawn
- gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel
- athrawon yn darparu ystod o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion ac yn ymateb i'w anghenion yn dda

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella ar gyfer yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol effeithiol i'w datblygiad a'i bywyd
- y staff yn cydweithio'n agos fel tîm
- aelodau'r corff llywodraethol yn gydwybodol ac yn gefnogol i waith yr ysgol; maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau strategol ac mae ganddynt weithdrefnau cadarn i ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad
- prosesau hunanarfarnu yn drylwyr ac yn tynnu ar wybodaeth o amrediad eang o dystiolaeth uniongyrchol
- ei chynllun datblygu yn gynhwysfawr ac yn nodi blaenoriaethau priodol
- ganddi bartneriaethau strategol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau ac sy'n ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion mwy abl yn cyrraedd eu potensial

A2 Sicrhau bod arferion gorau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws yr ysgol

A3 Darparu cyfleoedd cyson i aelodau'r uwch dîm rheoli ddatblygu eu medrau arwain

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau cyffredinol rhan fwyaf y disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae medrau gwrando rhan fwyaf y disgyblion yn dda iawn, maent yn canolbwyntio am gyfnodau priodol ac yn dyfalbarhau'n gydwybodol ar dasgau. Yn eu gwersi, ac wrth drafod eu gwaith gydag eraill, maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn llwyddiannus, gan ddefnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol yn eu gweithgareddau.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn glir ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau brawddegau yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn mynegi barn a thrafod eu gwaith yn hyderus gyda'u cyfoedion. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith yn hyderus. Maent yn ymateb i gwestiynau athrawon ac yn esbonio'u syniadau yn glir. Mae medrau llafar bron pob disgybl yn gryf iawn.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl ac ystyrlon ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae llawer yn defnyddio strategaethau effeithiol i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Maent yn darllen yn annibynnol ac yn trafod eu hoff lyfrau ac awduron yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau darllen yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen ystod eang o destunau yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda rhuglder, mynegiant a dealltwriaeth dda. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn trafod cynnwys y testun a chymeriadau mewn modd aeddfed. Mae uwch fedrau darllen y rhan fwyaf yn datblygu'n dda. Maent yn gallu defnyddio cynnwys a mynegai llyfrau gwybodaeth yn effeithiol i ddod o hyd i wybodaeth.

Mae gallu llawer o ddisgyblion i ysgrifennu'n annibynnol yn datblygu'n effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu darnau estynedig yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir ac yn defnyddio priflythyren ar ddechrau brawddeg ac atalnod llawn ar ei diwedd yn gyson. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ansoddeiriau, cymariaethau a geiriau croes yn effeithiol. Enghreifftiau da o hyn yw'r portreadau aelodau'r teulu, taflen i hysbysebu Cymru, gwaith ar draddodiadau gwahanol grefyddau a chardiau post. Serch hynny, cyfyng yw gallu llawer o'r disgyblion mwy abl i amrywio eu brawddegau yn llwyddiannus i greu effaith.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig mewn amrywiaeth o arddulliau yn llwyddiannus yn y ddwy iaith, gan ddefnyddio geirfa ddiddorol i gyfoethogi eu gwaith. Maent yn cyflwyno'u syniadau a'u gwybodaeth yn effeithiol ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n effeithiol i

wahanol bwrpasau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, ysgrifennu adroddiad am addysg adeg y Tuduriaid mewn gwers hanes, cofnodi gwybodaeth am arwynebedd gwaelod llongau ac ymchwilio i effaith ffrithiant wrth gadw Barti Ddu yn ddiogel mewn gwyddoniaeth. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn daclus iawn.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol afael gadarn ar fedrau rhifedd, ac maent yn llwyddo i'w defnyddio'n effeithiol i ddatrys problemau. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio strategaethau adio, tynnu, rhannu a lluosi wrth ddatrys problemau geiriol a phroblemau rhesymu rhif. Mae bron pob un o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio offer ac unedau mesur safonol yn gywir yn eu tasgau; er enghraifft, cymharu tymheredd y bore a'r prynhawn yng Nghymru a chyfrifo oed hen deganau trwy ddefnyddio llinell amser. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn casglu ac yn dehongli data yn effeithiol, gan egluro canlyniadau a gweithdrefnau'n hyderus; er enghraifft, dadansoddi data yn seiliedig ar y peiriant sgrech a threfnu taith i'r teulu o gwmpas Cymru. Maent yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm yn enwedig mewn gwyddoniaeth, hanes a daearyddiaeth. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio ystod eang o strategaethau wrth ddatrys problemau rhif yn fedrus.

Mae llawer o'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol. Mae'r safonau a welwyd yn llyfrau'r disgyblion ac ar lawr y dosbarth yn well nag y mae data perfformiad yr ysgol yn ei awgrymu.

Mae bron pob un o ddisgyblion yr ysgol yn dangos balchder at y Gymraeg ac yn siarad yr iaith wrth gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliant disgwyliedig gan amlaf yn is na'r cyfartaledd o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf. Ar y deilliant uwch na'r disgwyl, mae perfformiad wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) dros y pedair blynedd ddiwethaf mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn amrywio'n fawr ac nid oes unrhyw batrwm penodol. Ar y lefel uwch na'r disgwyl, mae perfformiad disgyblion yn y Saesneg a'r Gymraeg wedi amrywio rhwng yr 50% is a'r 50% uwch. Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio rhwng yr 50% uwch a'r 25% uchaf.

Dros gyfnod o dair blynedd, mae'r merched wedi perfformio'n well na'r bechgyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 ar y deilliannau disgwyliedig ac uwch ym mhob maes dysgu a phwnc craidd ac eithrio mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 2, lle mae bechgyn wedi perfformio'n well na'r merched.

Gan fod nifer y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn isel, mae'n anodd cymharu eu cynnydd gyda gweddill y disgyblion mewn modd dibynadwy.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at fyw a bwyta’n iach. Maent yn mwynhau gweithgareddau corfforol mewn gwersi ffurfiol a thrwy fynychu’r amrywiaeth eang o glybiau ar ôl ysgol. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda iawn. Maent yn fonheddig, yn gwrtais ac yn barchus tuag at ei gilydd, yr athrawon ac ymwelwyr.

Mae aelodau'r cyngor ysgol, y pwyllgor lles, llysgenhadon a swyddogion eraill yn chwarae rhan weithredol a phwysig yn yr ysgol. Maent yn cynrychioli safbwyntiau'r disgyblion yn dda a chyda brwdfrydedd. Trwy’r pwyllgorau hyn, a thrwy fyfyrio dros hawliau’r plentyn, mae’r rhan fwyaf yn cael y cyfle i fynegi barn ac i wneud penderfyniadau sy’n effeithio ar eu bywyd yn yr ysgol.

Mae’r disgyblion yn dangos diddordeb, balchder a hyder yn eu gwaith ac yn eu hysgol. Mae eu hymddygiad a’u hagweddau cadarnhaol yn adlewyrchu eu cyfranogiad llawn yn eu dysgu. Maent yn wynebu heriau newydd yn hyderus ac yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig sy’n cydweithio’n gytûn.

Mae cyfraddau presenoldeb y disgyblion wedi gwella’n raddol er 2013, ac mewn dwy o’r pedair blynedd diwethaf, mae cyfraddau presenoldeb wedi bod yn yr 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd mynychu’r ysgol yn rheolaidd a dangosant ymrwymiad cadarn i bresenoldeb da. Mae bron pob un o’r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu cyfoethog sy’n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion ac yn ymateb i’w anghenion yn effeithiol. Mae staff yn gwahodd ymwelwyr i’r ysgol a threfnu bod disgyblion yn ymweld â’r gymuned yn rheolaidd.

Mae hyn yn cyfoethogi’r cwricwlwm yn dda ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i brofiadau dysgu’r disgyblion. Mae’r ysgol yn llwyddo i weithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn gadarn. Mae staff yn cynllunio gweithgareddau priodol ar draws y chwe maes dysgu ac yn gwneud defnydd sylweddol o’r ardal fewnol ac allanol fel ei gilydd. Mae’r ysgol yn cyflwyno egwyddorion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn llwyddiannus trwy eu hymgorffori’n llwyddiannus yn y cynlluniau gwaith. Mae’r cynlluniau gwaith hir dymor wedi’u seilio ar themâu cyfoes sydd o ddiddordeb i’r disgyblion, ac mae’r cynllunio tymhorol yn sicrhau cysondeb ar draws y pynciau gan hyrwyddo dilyniant a pharhad priodol yn y dysgu. Darperir cyfleoedd priodol i ddisgyblion gymhwyso ystod o fedrau iaith, rhif a thechnoleg gwybodaeth mewn amrywiaeth cyffrous o gyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r iaith Gymraeg ei hyrwyddo’n effeithiol. Mae’r staff yn modelu iaith dda ac mae llawer o’r disgyblion yn efelychu a defnyddio’r patrymau iaith, geirfa briodol a chystrawennau’n effeithiol. Rhoddir lle blaenllaw i ddiwylliant lleol ac i’r Cwricwlwm Cymreig sy’n adlewyrchu’n gadarnhaol iawn ar holl fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae gwaith y Cyngor Ysgol a'r Cyngor Lles yn sicrhau bod dealltwriaeth y disgyblion o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Er enghraifft, mae'r cysylltiadau defnyddiol gyda gwledydd tramor fel India a noddi plentyn yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo yn cyfoethogi dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd amrywiol a phwysig i'r disgyblion gefnogi elusennau i helpu rhai sy'n llai ffodus na nhw.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel ac mae'r disgyblion i gyd yn deall hyn ac, o ganlyniad, yn ymateb yn dda. Mae bron pob un o'r cyflwyniadau'n frwdfrydig gyda chyflymder priodol, sy'n sbarduno disgyblion i weithio'n gydwybodol. Mae athrawon yn holi'n effeithiol er mwyn ehangu dealltwriaeth y disgyblion, ac yn eu hannog i ddefnyddio eu medrau meddwl ac i weithio yn annibynnol drwy gydol y gwersi. Mae ganddynt wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn cysylltu eu gwersi'n glir â dysgu blaenorol. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau'n fedrus i sicrhau eu bod yn cyflwyno dilyniant o weithgareddau dysgu sy'n ennyn brwdfrydedd ac yn cynnal diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r holl staff, gan gynnwys y cynorthwywyr, yn manteisio'n dda ar bob cyfle i gyfoethogi iaith y disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu eu medrau llafar.

Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau'n effeithiol a diddorol i gynnig profiadau dysgu sy'n herio disgyblion mwy abl yn rheolaidd yn y gwersi. Fodd bynnag, nid yw'r her ar gyfer datblygu potensial disgyblion o allu uwch bob amser yn amlwg yn eu llyfrau.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n gadarn yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau. Lle mae ar ei orau, mae'r athrawon yn cyflwyno nodau addysgol ac yn trafod meini prawf llwyddiant pwrpasol gyda'r disgyblion. Mae gweithdrefnau da yn eu lle i ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld eu heffaith yn llawn ar fedrau llawer o ddisgyblion i farnu gwaith eu hunain a'u cyfoedion yn effeithiol.

Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd ym mhob dosbarth. Lle mae'r marcio fwyaf effeithiol, fel mewn nifer o'r llyfrau iaith a thema, er enghraifft, mae sylwadau'r athrawon yn cynnig arweiniad clir i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith. Fodd bynnag, mewn ychydig o ddosbarthiadau, nid yw'r marcio bob amser yn ddigon miniog i alluogi disgyblion i wella'u gwaith yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cynhwysfawr ar gyfer cofnodi asesiadau ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r defnydd a wna'r athrawon o'r gweithdrefnau hyn yn datblygu'n dda ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn cynnwys sylwadau gwerthfawr ar gynnydd eu plant, ynghyd â thargedau addas er mwyn gwella. Maent yn bodloni gofynion statudol yn llawn.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'n darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddisgyblion gadw'n heini trwy'r cwricwlwm a thrwy weithgareddau allgyrsiol. Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn effeithiol, trwy ddefnyddio systemau gwobrwyo; er enghraifft, gwobrwyo 'Cymry Cŵl' am siarad Cymraeg yn gyson, a dathlu presenoldeb da a chyson. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les, ymddygiad ac agwedd disgyblion at ddysgu.

Darperir amrywiaeth eang o brofiadau cyfoethog o fewn yr ysgol a'r gymuned sy'n datblygu medrau cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Enghreifftiau da o hyn yw ymweliadau aelodau Eglwys San Paul â'r ysgol i hybu prosiect 'Agor Llyfrau', ynghyd â chyfle i ddisgyblion fynychu cyfarfod gyda'r Comisiynydd Plant i drafod materion sy'n bwysig iddyn nhw. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu hagweddau ysbrydol a moesol trwy wasanaethau rheolaidd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ysgol yn darparu cefnogaeth dda i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r staff yn adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar trwy gynnal trafodaethau â'i gilydd a chyda'r disgyblion. Mae'r cynlluniau addysg unigol a ddarperir yn briodol ar eu cyfer yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r disgyblion a'u rhieni. Rhoddir cynhaliaeth briodol iddynt trwy'r bartneriaeth waith effeithiol sy'n bodoli rhwng yr athrawon a'r cynorthwywyr dysgu. Mae disgyblion ag anghenion penodol yn derbyn rhaglenni addas sy'n sicrhau eu bod yn gweithio tuag at eu targedau er mwyn gwneud cynnydd priodol i'w galluogi i symud ymlaen i'r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae'r ysgol yn adnabod y disgyblion mwy abl a thalentog yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r polisi na'r gweithdrefnau ffurfiol sy'n bodoli i alluogi'r disgyblion hyn i gyrraedd eu potensial yn ddigon clir.

Gwneir defnydd effeithiol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol, gan gynnwys y gwasanaethau iaith a lleferydd, a'r seicolegydd, i gefnogi disgyblion penodol mewn meysydd arbennig.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae ethos cartrefol a digynnwrf yn bodoli, sy'n cynnig amgylchedd dysgu diogel a chefnogol i'r disgyblion, ac yn gosod pwyslais uchel ar gydraddoldeb, amrywiaeth a pharch. Mae polisïau a strategaethau'r ysgol yn bodloni gofynion statudol ac yn cefnogi'r ethos cadarnhaol yn dda. Mae cyfleoedd priodol i'r holl ddisgyblion fanteisio ar bob agwedd o'r cwricwlwm ynghyd â'r ystod fuddiol o weithgareddau ac ymweliadau diddorol eraill a ddarperir.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau da sy'n cefnogi dysgu ac addysgu yn effeithiol, gan gynnwys cyflenwad addas o adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sy'n datblygu medrau digidol y dysgwyr yn briodol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r ardal allanol yn effeithiol i weithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac yn gwneud defnydd buddiol o'r ardal leol ar gyfer amryw o weithgareddau.

Mae arddangosfeydd deniadol o waith a llwyddiannau'r disgyblion yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn creu amgylchedd dysgu diddorol. Mae hyn yn cefnogi'r dysgu'n dda ac yn ychwanegu at ethos cartrefol yr ysgol.

Mae safon glanweithdra yn uchel ac mae'r staff ategol yn cynnal a chadw'r adeiladau'n dda. Er gwaetha'r ymdrech i wneud hyn, mae lleithder a dŵr yn dod i mewn i'r ystafelloedd ac yn amharu ar yr arddangosfeydd ac amgylchedd y dosbarth o bryd i'w gilydd.

Mae safle'r ysgol yn ddiogel ar gyfer y disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol pwrpasol i ddatblygiad a bywyd yr ysgol. Mae ganddo weledigaeth glir sy'n seiliedig ar godi safonau a chynnwys yr holl randdeiliaid ym mhrosesau'r ysgol. Mae'n defnyddio data'n effeithiol i fonitro a herio perfformiad disgyblion. Mae aelodau'r uwch dîm rheoli yn gweithredu eu cyfrifoldebau cwricwlaidd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw rolau arweiniol aelodau'r uwch dîm rheoli wedi eu datblygu'n llawn hyd yma.

Mae'r athrawon a'r staff ategol yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n effeithiol. Maent yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod ar y cyd. O ganlyniad, mae ymrwymiad cryf yn bodoli ar draws yr ysgol i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus. Mae hyn yn arwain at gryfhau'r ddarpariaeth a chodi safonau gwaith disgyblion.

Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn bodoli, sy'n cyfrannu'n effeithiol at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff trwy raglen o hyfforddiant perthnasol. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel datblygu medrau llythrennedd a rhifedd, parchu hawliau disgyblion a gwella presenoldeb.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gydwybodol ac yn gefnogol iawn i waith yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o ddata perfformiad a chyflawniad disgyblion. Erbyn hyn, maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau strategol ac mae ganddynt weithdrefnau cadarn i ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol yn drylwyr ac yn tynnu ar wybodaeth o amrediad eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r arfarniadau monitro ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn fanwl ac yn darparu tystiolaeth glir o waith yr ysgol. Mae arweinwyr yn canfod barn reolaidd y llywodraethwyr, y rhieni a'r disgyblion trwy holiaduron, ac mae'r staff yn ystyried adborth ar adolygiadau tymhorol gan asiantaethau allanol fel rhan o'r gweithdrefnau hyn. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ystod eang o dystiolaeth i'w galluogi i farnu eu gwaith yn gywir ac yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn dadansoddi data cyrhaeddiad y disgyblion yn ofalus ac yn defnyddio'r canfyddiadau'n ystyrlon i greu gwelliannau. Mae'r adroddiad yn rhoi darlun eglur o effaith y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar safonau a lles y disgyblion. Mae'n cynnig asesiad cywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. O ganlyniad, mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir trwy'r broses hunanarfarnu yn bwrpasol ar gyfer pennu blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r cynllun datblygu yn gynhwysfawr. Mae'n nodi manylion targedau, data cefndirol, cyfrifoldebau staff, trefniadau monitro a chost. Mae'n cynnwys meini prawf llwyddiant hefyd, sy'n canolbwyntio'n dda ar godi deilliannau disgyblion.

Mae'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun datblygu presennol eisoes wedi dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella safonau gwaith disgyblion, er enghraifft mewn darllen Cymraeg.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol effeithiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar godi safonau ac yn ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn sylweddol. Mae yna berthynas gref gyda'r rhieni sy'n cyfrannu cyllid sylweddol i'r ysgol ar gyfer darparu adnoddau ychwanegol ac ehangu profiadau disgyblion. Maent hefyd yn barod iawn i gynnig cymorth i ddisgyblion a staff. Er enghraifft, mae nifer yn rhoi eu hamser ar gyfer prosiectau cynnal a chadw o fewn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol berthynas lwyddiannus gyda'r cylchoedd meithrin sy'n gysylltiedig â hi. Mae'r cydweithio sy'n bodoli rhwng staff yn helpu disgyblion i ymgartrefu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen. Mae cysylltiadau cadarn a threfniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd, a threfnir amrywiaeth o weithgareddau pontio pwrpasol ar gyfer disgyblion ar frig yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn trosglwyddo'n esmwyth i'r sector uwchradd.

Cydweithia'r ysgol yn bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd i safoni a chymedroli gwaith. Mae'r prosesau hyn yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau. Mae yna gysylltiadau cydweithio llwyddiannus gydag ysgolion eraill sy'n arwain at welliannau mewn safonau gwaith disgyblion ac yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yn effeithiol. Mae cydweithio diweddar wedi arwain at greu pecynnau llythrennedd ac adnoddau cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang ar gyfer pob un o'r ysgolion hyn.

Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd â'r nifer o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, yn ehangu a chyfoethogi eu profiadau dysgu yn sylweddol. Mae'r defnydd a wna'r ysgol o'r parc lleol a'r traethau yn llwyddo i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd perthyn i'w cymuned a'u hamgylchfyd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol. Mae wedi ei staffio'n briodol a gwneir defnydd da o arbenigedd unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Mae cynorthwywyr yn darparu cefnogaeth gadarn i athrawon ac maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i safonau cyrhaeddiad a lles y disgyblion.

Gwna'r athrawon ddefnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu a chaiff y trefniadau ar gyfer hyn eu rheoli'n dda. O ganlyniad i'r broses rheoli perfformiad, caiff hyfforddiant ei gynllunio'n ofalus mewn perthynas â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion unigolion. Mae defnydd naturiol o'r ardal allanol yn hybu ac ysgogi profiadau dysgu disgyblion y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu effeithiol. Mae'r cydweithio llwyddiannus sy'n bodoli i ddatblygu strategaethau o fewn y clwstwr, fel tasgau rhifedd a chodi safonau llythrennedd, yn datblygu medrau ac arbenigedd staff yn effeithiol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus. Mae gwariant wedi'i gysylltu'n dda ag amcanion, targedau a blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol wedi wynebu cyfnod anodd iawn oherwydd toriadau yn y gyllideb yn ddiweddar. Fodd bynnag, o ganlyniad i gynllunio darbodus, mae'r sefyllfa yn argoeli'n well ar gyfer y dyfodol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella ymhellach y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a lles disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion, ac ansawdd y ddarpariaeth a'r profiadau dysgu.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6702098 - Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-Môr**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 287 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.8 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 36 | 33 | 36 | 35 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 80.6 | 84.8 | 91.7 | 91.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 36 | 33 | 36 | 35 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.6 | 84.8 | 91.7 | 91.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 25.0 | 27.3 | 30.6 | 34.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 36 | 33 | 36 | 35 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.9 | 87.9 | 94.4 | 91.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 36.1 | 33.3 | 36.1 | 25.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 36 | 33 | 36 | 35 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 97.2 | 90.9 | 94.4 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 41.7 | 69.7 | 66.7 | 62.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6702098 - Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-Môr**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 287 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.8 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 33 | 28 | 31 | 22 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 81.8 | 85.7 | 83.9 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 33 | 28 | 31 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.9 | 92.9 | 87.1 | 95.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.3 | 39.3 | 35.5 | 45.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 33 | 28 | 31 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.8 | 89.3 | 80.6 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 30.3 | 39.3 | 29.0 | 45.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 33 | 28 | 31 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 81.8 | 85.7 | 87.1 | 95.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.3 | 57.1 | 54.8 | 59.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 33 | 28 | 31 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 93.9 | 96.4 | 93.5 | 95.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 39.4 | 50.0 | 54.8 | 45.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 129 | 121<br>94%<br>98% | 8<br>6%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 129 | 105<br>81%<br>92% | 24<br>19%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 129 | 121<br>94%<br>97% | 8<br>6%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 129 | 116<br>90%<br>97% | 13<br>10%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 129 | 123<br>95%<br>96% | 6<br>5%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 129 | 113<br>88%<br>96% | 16<br>12%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 128 | 126<br>98%<br>99% | 2<br>2%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 129 | 122<br>95%<br>98% | 7<br>5%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 129 | 98<br>76%<br>91% | 31<br>24%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 129 | 116<br>90%<br>95% | 13<br>10%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 129 | 93<br>72%<br>77% | 36<br>28%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 129 | 99<br>77%<br>84% | 30<br>23%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 153 | 91 | 58 | 4 | 0 | 2 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 59% | 38% | 3% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 152 | 106 | 42 | 3 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 70% | 28% | 2% | 1% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 152 | 98 | 53 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 64% | 35% | 1% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 147 | 68 | 71 | 8 | 0 | 7 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 46% | 48% | 5% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 147 | 58 | 80 | 8 | 1 | 8 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 39% | 54% | 5% | 1% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 142 | 69 | 70 | 3 | 0 | 9 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 49% | 49% | 2% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 146 | 76 | 68 | 2 | 0 | 7 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 52% | 47% | 1% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 125 | 42 | 73 | 8 | 2 | 27 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 34% | 58% | 6% | 2% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 139 | 66 | 69 | 3 | 1 | 15 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 47% | 50% | 2% | 1% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 141 | 64 | 71 | 5 | 1 | 12 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 45% | 50% | 4% | 1% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 150 | 86 | 61 | 3 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 57% | 41% | 2% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 121 | 54 | 55 | 10 | 2 | 32 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 45% | 45% | 8% | 2% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 148 | 49 | 82 | 15 | 2 | 6 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 33% | 55% | 10% | 1% | | |
| | | 50% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 150 | 90<br>60% | 53<br>35% | 7<br>5% | 0<br>0% | 4 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 140 | 55<br>39% | 72<br>51% | 10<br>7% | 3<br>2% | 15 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 137 | 65<br>47% | 68<br>50% | 4<br>3% | 0<br>0% | 15 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 87 | 30<br>34% | 46<br>53% | 11<br>13% | 0<br>0% | 65 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 146 | 52<br>36% | 83<br>57% | 10<br>7% | 1<br>1% | 8 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 149 | 93<br>62% | 51<br>34% | 5<br>3% | 0<br>0% | 6 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Meinir Wynne Howells | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Deris Davies Williams | Arolygydd Lleyg |
| Amanda Lawrence | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ceri Scourfield | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.